# Optometreg

## Optometryddion

Caiff optometryddion, a elwid gynt yn optegwyr, eu hyfforddi i archwilio'r llygaid er mwyn canfod nam ar y golwg, arwyddion o anaf, clefydau'r llygaid neu annormaleddau a phroblemau iechyd cyffredinol, megis pwysedd gwaed uchel neu ddiabetes. Byddant yn cynnal asesiad iechyd, yn cynnig cyngor clinigol, yn rhagnodi sbectolau neu lensys cyffwrdd ac yn atgyfeirio cleifion i gael triniaeth bellach, pan fo angen.

Bydd optometryddion yn astudio mewn prifysgol am o leiaf dair blynedd ac yn cael cyfnod o hyfforddiant clinigol wedi'i asesu mewn practis, cyn cofrestru. Ar ôl cymhwyso, byddant yn parhau i ddiweddaru eu sgiliau yn flynyddol, drwy addysg a hyfforddiant gorfodol. Bydd cyfle iddynt hefyd ennill cymwysterau pellach sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn cynlluniau gofal a rennir ag adrannau llygaid mewn ysbytai, dod yn ragnodwyr annibynnol neu ddatblygu diddordeb arbenigol mewn meysydd megis glawcoma a chyflyrau meddygol y retina. Mae'n rhaid i bob optometrydd sy'n ymarfer yn y DU gofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol, sef corff rheoleiddio'r proffesiwn.

## Optometrydd Presgripsiynu Annibynnol

Gall optometryddion cymwysedig sy'n meddu ar o leiaf ddwy flynedd o brofiad, ddilyn cymhwyster dysgu o bell er mwyn eu galluogi i ymarfer fel presgripsiynwyr annibynnol a chyrraedd y safonau a bennwyd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol i gael eu cynnwys ar y gofrestr bresgripsiynu therapiwtig arbenigol briodol.

## Optegwyr Fferyllol

Bydd optegydd fferyllol yn rhoi cyngor ar y sbectolau mwyaf priodol ac yn eu ffitio a'u cyflenwi ar ôl ystyried anghenion gweledol a galwedigaethol bob claf a'i ffordd o fyw. Mae pob optegydd fferyllol cofrestredig wedi cael hyfforddiant academaidd ac ymarferol am o leiaf dair blynedd er mwyn cymhwyso, ac mae'n rhaid iddynt, yn yr un modd ag optometryddion, ddilyn hyfforddiant a datblygiad ychwanegol gorfodol i gadw eu cofrestriad. Dim ond optegwyr fferyllol sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol sy'n gallu ymarfer yn y DU gan ddefnyddio'r teitl gwarchodedig, sef optegydd fferyllol.

Mae optegwyr fferyllol hefyd yn rhan bwysig o gynghori a dosbarthu cymhorthion golwg gwan i rai sydd â nam ar eu golwg, a dosbarthu i blant ac oedolion sydd wedi'u diffinio o dan gyfraith fel rhai â lensys cymhleth. Gallant hefyd osod lensys cyffwrdd a darparu ôl-ofal ar ôl cael hyfforddiant arbenigol pellach.

## Ymarferydd meddygol offthalmig (OMP)

Offthalmolegwyr sy'n cynnal profion llygaid yw ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP). Yn yr un modd ag optometryddion, mant yn archwilio'r llygaid, yn profi'r llygaid, yn canfod annormaleddau ac yn presgripsiynu lensys cywiro addas. Y Cyngor Meddygol Cyffredinol sy'n cofrestru ac yn rheoleiddio ymarferwyr OMP. Mae cyfrifoldebau ymarferwyr OMP yr un fath ag optometryddion pan fyddant yn cynnal profion llygaid.

## Offthalmoleg

Offthalmoleg yw'r adran feddygol sy'n gwneud diagnosis o glefydau'r llygaid a'r system weledol, ac sy'n eu trin a'u hatal.

**Offthalmolegydd**

Meddyg wedi'i hyfforddi'n feddygol yw offthalmolegydd sy'n gweithredu fel meddyg yn ogystal â llawfeddyg.  Mae'n archwilio'r llygaid ac o'u hamgylch gan wneud diagnosis o glefydau ac anafiadau'n ymwneud â'r
llygaid a'u trin. Mae offthalmolegwyr fel arfer yn gweithio mewn adrannau llygaid ysbytai er mwyn gwneud diagnosis o gyflyrau megis glawcoma, dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint, cataractau a chlefydau eraill y llygaid, a'u trin. Maent hefyd yn rhoi llawdriniaeth ar y llygaid ac o'i hamgylch yn dilyn trawma neu afiechyd ar y llygaid, gorchudd y llygaid a'r wyneb ac yn darparu triniaethau cywiro mewn achosion o lygaid croes.

**Orthoptydd**

Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yw orthoptyddion sy'n gweithio ym maes problemau'n ymwneud â symudiad y llygaid a gallu'r llygaid i gydweithio e.e. llygaid croes (strabismus) a golwg dwbl (diplopia).  Mae Orthoptyddion yn gweithio ochr yn ochr ag offthalmolegwyr i reoli plant sydd â llygaid croes a llygaid diog a chydag optometryddion i gyflenwi sbectolau ar bresgripsiwn prismatig sy'n rheoli golwg dwbl.

**Swyddogion Cyswllt Clinig Llygaid (ECLOs)**

Mae ECLOs yng Nghymru yn gweithio'n agos gyda phobl sy'n cael diagnosis o gyflwr ar y llygaid, staff meddygol a nyrsio mewn clinigau llygaid a'r gwasanaethau cymdeithasol.  Maent yn darparu gwybodaeth a chymorth ymarferol ac emosiynol i helpu pobl i ddeall eu cyflwr.  Maent yn galluogi pobl sydd â nam ar eu golwg ac sy'n colli eu golwg i fyw'n annibynnol drwy ddangos y ffordd a'u hatgyfeirio i wasanaethau priodol i gael cymorth.

**Athro Cymwysedig Disgyblion â Nam ar eu Golwg (QTVI)**

Staff arbenigol yw athrawon cymwysedig disgyblion â nam ar eu golwg (QTVIs) sydd â chymhwyster gorfodol mewn nam ar y golwg.  Maent yn rhan ganolog o addysgu plant a phobl ifanc sydd â nam ar eu golwg ers eu geni, yn gweithio mewn cartrefi, lleoliadau y blynyddoedd cynnar, ysgolion a lleoliadau ôl-16 oed.  Gwaith QTVI yw:

- gweithio'n uniongyrchol gyda phlant yn addysgol mewn meysydd arbenigol megis caffael cysyniadau gweledol a datblygu llythrennedd drwy braille neu brint bras.
- gweithio'n agos gydag ysgolion neu leoliadau, er mwyn sicrhau y caiff anghenion plant eu diwallu drwy gydgynllunio sy'n annog y broses o addysgu cynhwysol a dulliau dysgu.
- rhoi cyngor ar y broses o weithredu strategaethau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol y plant a goruchwylio'r broses honno.
- cymryd rhan mewn dull wedi'i gynllunio dros amser er mwyn lleihau cymorth gan oedolion ac o blaid strategaethau sy'n hyrwyddo dysgu'n annibynnol.
- cadw cysylltiad agos â theuluoedd fel ffynhonnell o gyngor parhaus.

**Arbenigwyr Sefydlu (Habilitation Specialists)**

Arbenigwyr sefydlu, y cyfeirir atynt weithiau fel swyddogion symudedd, arbenigwyr symudedd, athrawon cyfeiriadedd a symudedd, gweithwyr adsefydlu a gweithwyr arbenigol ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg, sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd â nam ar eu golwg a naill ai mewn addysg prif ffrwd neu addysg arbenigol.

Mae arbenigwyr sefydlu yn rhoi cymorth i blant a phob ifanc sydd â nam ar eu golwg ac yn eu haddysgu i symud o amgylch mor ddiogel, effeithiol ac annibynnol â phosibl a magu hyder. Maent yn rhoi cyngor ar ffyrdd o wella mynediad corfforol person ifanc i'w amgylchedd a gallant hefyd weithio gyda theuluoedd i helpu plant a phobl ifanc fod yn gyfrifol am eu gofal personol – drwy eu dysgu i ymolchi, gwisgo, trefnu eiddo er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn mewn bywyd teuluol. Gall arbenigwyr sefydlu weithio ar ran nifer o gyflogwyr gan gynnwys ysgolion arbenigol, adrannau addysg lleol, adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac elusennau.

**Swyddogion Adsefydlu ar gyfer pobl â Nam ar eu Golwg (ROVIs)**

Mae swyddogion adsefydlu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg (ROVIs) wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso i weithio gyda phobl sydd â nam difrifol ar eu golwg neu sy'n ddall. Gall ROVIs gynnal asesiadau i drafod anawsterau neu anghenion a chanfod atebion er mwyn eich helpu i aros gartref a bod mor annibynnol â phosibl. Gall ROVIs helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd i gynorthwyo'r broses o fod yn annibynnol e.e. defnyddio cymhorthion symudedd megis ffon wen, defnyddio dulliau cyfathrebu megis Braille a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol, defnyddio chwyddwydr, golau cywir a chymhorthion lliwiau cyferbyniol. Gall ROVIs hefyd roi cymorth i asesu cymhwysedd i gael cymhorthion ac offer arbenigol, addasu offer y cartref, cwblhau ffurflen gofrestru os bydd offthalmolegydd yn cadarnhau cyflwr gweledol sy'n dangos bod nam ar y golwg neu nam difrifol ar y golwg a darparu gwasanaeth cwnsela anffurfiol, dangos y ffordd a chanllawiau a chymorth. Bydd ROVI yn gweld unrhyw un sydd â nam difrifol ar ei olwg na ellir ei gywiro gyda sbectol. Gellir dod o hyd i Swyddogion Adsefydlu pob ardal drwy Sight Cymru